# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

### ***Dwyn yr Adain Weithredol a'r Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r amcanion lles sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor***

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

DRAFT

| Dyddiad/Amser | Eitem gyffredinol | Swyddog | Craffu yn canolbwyntio ar... |
|---|---|---|---|
| **15 Gorffennaf 2024** | **1. Rhaglenni Gwaith drafft y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2024–25**<br><br>**2. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol aelodau lleyg y cydbwyllgorau corfforaethol** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gymeradwyo ei raglen waith ei hun a rhaglen waith y Pwyllgorau Craffu thematig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2024-25.<br><br>Trafod ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad |
| **22 Gorffennaf 2024** | **1. Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4**<br><br>**2. Ymgynghoriad Cyfrannu ac Ymgynghori** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol. |
| **18 Medi 2024** | **1. Rhag-graffu – Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn**<br><br>**2. Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu<br><br>Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor | Rhoi cyfle i gynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â Chartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn |
| **30 Medi 2024** | **1. Ymgysylltu ag Aelod o'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn**<br><br>**2. Adroddiad Cyflawniad Chwarter 1** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Cyflawniad | Craffu ar unrhyw faterion sy'n codi gyda'r deilydd portffolio cyfrifol, a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.<br><br>Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11 Tachwedd 2024** | **1. Tlodi Plant** | Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned | Trafod adroddiad sy'n trafod Tlodi Plant yn dilyn y rhybudd o gynnig a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor |
| | **2. Rhag-graffu - Strategaeth Deisebau** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Cynnig sylwadau ar y Strategaeth Deisebau cyn i'r Cabinet ei chymeradwyo |
| | **3. Y Diweddaraf - Tomenni Glo** | Cyfarwyddwr y Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Derbyn diweddariad mewn perthynas â'r Tomenni Glo ledled RhCT |
| **9 Rhagfyr 2024** | **1. Strategaeth Gyllideb y Cyngor 2025-26 (Cam 1)** | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen | Ymateb yn ffurfiol i gam cyntaf y broses o bennu Cyllideb y Cyngor |
| | **2. Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Cyflawniad | Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol. |
| **27 Ionawr 2025** | **1. Strategaeth Gyllideb y Cyngor 2025-26 (Cam 2)** | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen | Ymateb yn ffurfiol i ail gam y broses o bennu Cyllideb y Cyngor |
| | **2. Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol** | Prif Weithredwr | Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a chyflwyno sylwadau |
| **24 Mawrth 2025** | **1. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023-24** | Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol | Cynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2. Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Cyflawniad | Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol. |
| **7 Ebrill 2025** | **1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu 2024-25** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Derbyn copi drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo |
| | **2. Ymgysylltu ag Aelod o'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Cyfle i graffu ar unrhyw faterion sy'n codi gyda'r deilydd portffolio cyfrifol, a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol. |

Trafod cynnwys yr eitemau yma:

- Rheoli Achosion o Absenoldeb ac Absenoldeb Oherwydd Salwch
- Ymgynghoriad y Cyngor
- Adroddiadau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru
- Cydbwyllgorau Corfforaethol Newydd
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Digideiddio – Cyfathrebu gyda'r Cyngor
- Cydweithio gyda phartneriaid
- Busnes yn y Gymuned – Creu Lleoedd

DRAFT